# HINSAWDD HURT

cymorth cristnogol Hinsawdd newydd. Torrwn y carbon.

# Proffil gwlad

## Bangladesh

**Lleoliad:** Gwlad yn ne-ddwyrain Asia yw Bangladesh

**Prifddinas:** Dhaka

**Poblogaeth:** 150 miliwn. Mae un person o bob tri yn 14 oed neu'n iau!



**Hinsawdd:**
Hinsawdd trofannol. Haf poeth sticlyd ac yna cyfnod y monsŵn sef glaw trwm sydd yn aml yn achosi llifogydd.

**Problemau yn gysylltiedig â newid hinsawdd:**
Mae Bangladesh yn cael ei effeithio gan lifogydd yn fwy nag unrhyw wlad arall yn y byd. Mae hyn oherwydd bod y tir yn isel ac mae nifer o afonydd mawr yn llifo trwy'r wlad gan gynnwys y Ganges, Jumana/Brahmaputra a'r Meghna.

Mae 17 miliwn o bobl yn byw prin fetr uwchlaw lefel y môr.

Mae llifogydd yn sgubo cnydau, tai, ysgolion a ffyrdd ymaith.

Bu llifogydd difrifol ym 1974, 1988, 1998, 2004 and 2007. Mae llifogydd yn fwy cyffredin bellach.

**Ôl-troed carbon:**
Ar gyfartaledd mae person o Bangladesh yn gollwng 0.3 tunnell o $CO_2$ y flwyddyn. Cymharwch hwn â ffigwr y DU (9.4 tunnell) ac Iwerddon (10.3 tunnell).*

(*Ffynhonnell: UNDP Human Development Report 2006)

Ewch at **www.globalgang.org/hotnews/newsflash/bangladesh_facts.html** am fwy o ffeithiau am Bangladesh.

© Cymorth Cristnogol, Hydref 2007

# HINSAWDD HURT

## Proffil gwlad

**Senegal**

**Lleoliad:** Gwlad yng ngorllewin Affrica yw Senegal.

**Prif ddinas:** Dakar

**Poblogaeth:** 11.4 miliwn.



**Hinsawdd:**
Mae Senegal yn wlad poeth gydag hinsawdd trofannol. Ceir tymor y glaw a thymor sych. Mae rhwng 100 a 500mm o law yn disgyn bob blwyddyn gan amlaf rhwng mis Gorffennaf a Medi. Ond mae'r ffigwr hwn yn gostwng.

Mae gweddill y flwyddyn yn sych ac mae gwynt poeth, sych a chryf yn chwythu o'r anialwch. Mae hanner tir gogledd Senegal yn anialwch. Mae'r gwynt yn chwythu'r pridd da i ffwrdd ac yn ei wneud yn anodd i dyfu cnydau.

**Problemau yn gysylltiedig â newid hinsawdd:**
Bu newyn difrifol yn 1972 ac 2002 oherwydd prinder glaw.

Ar ôl annibyniaeth yn 1960, roedd y llywodraeth wedi annog pobl i dorri coed er mwyn cynhyrchu siarcol. Cafodd coedwigoedd cyfan eu torri a'u dinistrio. Nawr mae mwy o dir yn troi yn ddiffeithdir oherwydd bod y coed wedi diflannu ac mae'r anifeiliaid yn bwyta'r gwair a'r planhigion i gyd.

Amcangyfrif bod tua 300 metr o'r tir yn troi'n ddiffeithdir bob blwyddyn.

**Ôl-troed carbon:**
Ar gyfartaledd mae person o Senegal yn gollwng 0.4 tunnell o $CO_2$ y flwyddyn. Cymharwch hwn â ffigwr y DU (9.4 tunnell) ac Iwerddon (10.3 tunnell).*

(*Ffynhonnell:UNDP Human Development Report 2006)



© Cymorth Cristnogol, Hydref 2007